27AIN O FEDI

# Ysgol Treganna

**Cylchlythyr wythnosol**



## Wythnos yma

Rydym wedi cael wythnos hapus arall yn Ysgol Treganna! Mae'r disgyblion bellach wedi dewis pwy fydd yn eu cynrychioli ar bwyllgorau llais y disgybl eleni. Pwyllgorau 24-25 fydd, Cyngor Ysgol, Llysgenhadon Lles, Criw Cymraeg, Arweinwyr yr Enfys a'r Pwyllgor Eco. Bydd y pwyllgorau yma yn cwrdd dros yr wythnosau nesaf ac yn creu eu cynlluniau a'u blaenoriaethau ar gyfer y tymor. Bydd y cynlluniau yma yn cael eu uwchlwytho i wefan newydd yr ysgol.

Mae'r wefan newydd bellach wedi ei chwblhau ac rydym yn y broses o lawnsio'r wefan newydd. Rydym yn gobeithio bydd y broses yma wedi gorffen erbyn wythnos nesaf.

Wythnos nesaf hefyd, byddwn yn danfon allan trosolwg tymor pob dosbarth. Yn ogystal byddwn yn danfon holiadur yn gofyn am eich adborth, mewnbwn a syniadau ar sut allan gyfoethogi dysgu'r tymor. Cysyniad y tymor ar gyfer yr holl ysgol yw "Amrywiaeth" ac mae'r disgyblion a'r staff wedi cydweithio i lunio taith dysgu'r dosbarth ar gyfer y tymor.

Mae Blwyddyn 6 wedi cael amser wrth eu bodd yn Llangrannog wythnos yma a diolch yn fawr i'r staff - Mrs Marged Miles Farrier, Miss Branwen Parry, Mr Mathew Jones, Mrs Ingrid Morgan, Mr Josh Chapman, Mr Tom Simms Hayes a Miss Mererid Lewis am fynd i Langrannog ac am eu gofal arbennig o'r plant. Ymlaciwch bawb nawr dros y penwythnos!

Mae wedi bod yn hyfryd wythnos yma i groesawu aelod newydd o staff i'r ysgol, sef Mr Geraint Passmore. Mr Passmore yw athro dosbarth Seithennyn yn absenoldeb Miss Angharad Llywelyn. Estynnwn groeso mawr i Mr Passmore a hefyd dymuno'n dda i Miss Llywelyn wrth iddi gychwyn ei chyfnod mamolaeth.

## Calendr

**Adam Coleman**
**01/10/24**

**Cyfarfod Rhieni yn neuadd yr ysgol**
**03/10/24**
**9.30yb 5.30yp**

# Gweledigaeth


Dros y misoedd diwethaf rydym wedi bod yn cydweithio gyda'r holl rhanddeiliaid i esblygu ymhellach gweledigaeth yr ysgol. Mae'r disgyblion wedi bod yn rhan allweddol o hyn ac rydym hefyd wedi ail edrych ar ein gwerthoedd ysgol ac wedi penderfynu ar "Tri Treganna", sef y tri gwerth pwysicaf i ni fel ysgol.Gweler isod ein gweledigaeth a "Tri Treganna".













## Cyfarfod Rhieni

Dydd Iau, Hydref y 3ydd bydd cyfarfod i rieni a gwarcheidwaid yn neuadd yr ysgol. Bydd dau gyfarfod, un am 9.30yb ac un am 5.30yh. Yn ystod y cyfarfodydd byddwn yn trafod ein blaenoriaethau ysgol ar gyfer y flwyddyn 24-25. Yn ogystal, byddwn yn sôn am ein polisi diogelu, ein strategaethau ysgol, ein Hwb cymunedol newydd - Y Nyth, ein Fforwm Rieni a datblygiad cyffrous newydd sef ein Cwlwm Rieni. Bydd lluniaeth ysgafn ac edrychwn ymlaen at eich croesawu i'r ysgol.

## Asda

Os fyddwch yn siopa yn Asda gofynnwn yn garedig i chi lawrlwytho a defnyddio'r ap "Asda Rewards". Mae cynllun "Cashpot for Schools" yn golygu bydd Asda yn rhoi canran o'r hyn byddwch yn gwario wrth siopa i Ysgol Treganna. Yn yr ap bydd angen i chi ddewis enw'r ysgol. Dyma fanylion pellach a diolch i'r Gymdeithas Rhieni am drefnu!




## Patrwm Iaith

**Wythnos nesaf, dyma batrwm iaith yr wythnos**
Rydw i'n hoffi/ Dwi'n hoffi…
Dydw i ddim yn hoffi…
**Her**
Mae'n well gen i… na…
Do/Naddo

**Testun trafod yr wythnos**
Fy hoff le yn y byd yw…

**Cân yr wythnos**
Blodau Papur - Dagrau Hallt

**Idiom yr wythnos**
Mynd dros ben llestri